# Mesur Addysg (Cymru) 2011

**2011 mccc 7**

## RHAN 2

LLYWODRAETHU YSGOLION

## PENNOD 2

HYFFORDDIANT I LYWODRAETHWYR A CHLERCOD A DARPARU CLERCOD

### 23 Dyletswydd awdurdodau lleol i ddarparu clercod i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir

(1) Rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru hysbysu, o dro i dro, bob corff y mae'n ofynnol iddo benodi clerc i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yn ardal yr awdurdod lleol o dan adran 23 o Ddeddf Addysg 2002 y caiff y corff hwnnw ofyn i'r awdurdod ddarparu person i'w benodi'n glerc.

(2) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu person i'w benodi os gwneir cais.

(3) Caiff y rheoliadau (ymhlith pethau eraill)—

(a) rhoi pŵer i awdurdod lleol godi ffi am ddarparu person (gan gynnwys pŵer i godi ffioedd gwahanol mewn achosion gwahanol);

(b) rhagnodi'r person y mae'n rhaid i'r ffi gael ei thalu drwyddo;

(c) darparu ar gyfer eithriadau ac esemptiadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 23 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 33(2)**

**I2** A. 23 mewn grym ar 22.8.2013 gan O.S. 2013/2090, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Addysg (Cymru) 2011, Adran 23.